

Dymuno'n dda

Diolchwn yn ddiffuant iawn i'r Parch. Meirion Morris am ei waith fel Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru dros y 10 mlynedd ddiwethaf a dymunwn yn dda iddo i'r dyfodol yn dilyn ei ymddeoliad o'r swydd ddiweddd mis Mehefin. Ei olynnydd yw'r Parch. Nan Powell-Davies, Yr Wyddgrug ac rydym yn ei llongyfarch ar ei phenodiad ac yn dymuno'n dda iawn iddi hithau fel Ysgrifennydd Cyffredinol a Chyfarwyddwr Gweinidogaethau yr enwad am y cyfnod nesaf.

Cyrsiau Haf Coleg y Bala

- ⇒ **Cwrs Ieuentid (11-14 oed):** Gorffennaf 23ain – 27ain. Y gost yw £113 ac mae'n cynnwys yr holl weithgareddau, bwyd a llety. Eleni, bydd trip i 'Flip Out', sialensau o gwmpas Caer, padlfyrddio, kayakio, chwaraeon, sinema awyr agored, disgo tawel, sgysiau o'r Beibl, a llawer iawn mwy. Cliciwch yma i archebu lle: <https://forms.gle/o6Q3LyeMX6bxqvQo6>
- ⇒ **Anhrefn Awst (i blant 8-11 oed):** Awst 8fed – 11eg. Y gost yw £88 ac mae'n cynnwys yr holl weithgareddau, bwyd a llety. Eleni bydd trip i Parc Trampolin 'Flip Out' yng Nghaer, gemau dŵr, nofio, disgo tawel, chwaraeon, crefft, cyfle i glywed am gariad rhyfeddol Iesu, a llawer iawn mwy. Cliciwch yma i archebu lle: <https://forms.gle/YxY1oqW97B2D14gHA>.
- ⇒ **Souled Out (ar gyfer ieuentid 15+, myfyrwyr ac oedolion ifanc):** Awst 13eg – 18fed. Mae'r prif sesiynau bob amser yn uchafbwynt, a bydd hefyd rhai seminarau ymarferol yn ystod yr wythnos i arfogi ac ysbrydoli. Ac mewn steil Souled Out, bydd llwyth o bethau hwyl i bawb wneud! Mae'r gost o £122 yn cynnwys y digwyddiad, bwyd, gweithgareddau a 5 noson o lety. Ewch i souledoutcymru.net/haf/ i archebu lle.

(Cofiwch mai hanner y pris fydd y gost i'r ail neu drydydd plentyn o'r un teulu, a bod Eglwys Bro Aled yn cynnig £20 o ostyngiad i bob unigolyn mewn addysg sydd am fynychu unrhyw un o'r cyrsiau uchod. Cysylltwch â'r Coleg os oes gennych unrhyw gwestiwn: colegybala@ebcpcw.cymru.)

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (13^{eg}), os gwelwch yn dda.

Llais Bro Aled



Dydd Sul, 3 Gorffennaf 2022

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

Un o'r pethau a gynyddodd yn sylweddol yn ystod y pandemig oedd fy edmygedd tuag at gyflwynwyr teledu: nid oherwydd fy mod wedi gwyllo llawer arnynt, ond yn sgil fy ymdrechion fy hun i gyfathrebu trwy gamera mewn ystafell wag! Trwy'r profiad anghyfforddus hwn daeth yn amlwg i mi cymaint o ddawn yw bod yn naturiol pan yn siarad â phobl nad ydych yn eu gweld! Ac i nifer o gyflwynwyr neu ohebwy'r ar y cyfryngau, gallaf ddychmygu bod y dasg hyd yn oed yn anoddach pan maent yn holi pobl yn syth ar ôl canlyniad arbennig, neu fuddugoliaeth o bwys. Yn achos Mari Lovegreen gyda buddugwyr Eisteddfod yr Urdd neu Dylan Ebenezer ar ochr cae pêl droed, roedd hi'n dipyn o gamp ennyn ymateb gan eraill yng nghanol corwynt o emosiynau. Mor aml, prin yw'r geiriau – unai “waw” neu “wn i ddim beth i'w ddweud!”

Ar adegau fel hyn y byddwn yn gweld profiad y cyflwynwyr yn dod i'r fei wrth iddynt helpu'r rhai y maent yn eu cyfweld. Gwnânt hyn wrth ofyn cwestiynau am bethau penodol neu geisio eu hatgoffa o rywun arbennig y dylid diolch iddynt.

Wrth i ni fyw ein bywydau a cheisio gwneud synnwyr o'r hyn y mae'r Beibl yn ei ddweud, rydym ninnau angen help hefyd. Meddyliwch er enghraifft am yr adran gofiadwy hon o weddi Paul dros Gristnogion Effesus (Effesiaid 3:18-19): *Boed i chwi, sydd â chariad yn wreiddyn a sylfaen eich bywyd, gael eich galluogi i amgyffred ynghyd â'r holl saint beth yw lled a hyd ac uchder a dyfnder cariad Crist, a gwybod am y cariad hwnnw, er ei fod uwchlaw gwybodaeth.*

Sut mae unrhyw Gristion yn cychwyn deall lled, hyd, uchder a dyfnder cariad Crist? Fel y gwelwn yn Effesiaid 3:16-17 (beibl.net), byddwn yn derbyn cymorth gan yr Ysbryd Glân wrth i Grist wneud 'ei gartref yn eich calonnau chi wrth i chi ymddiried ynddo fe.' Gyda'n gilydd, o gam i gam, bydd yr Ysbryd yn dyfnhau ein profiad o gariad Crist wrth i ni ymddiried, gwrando a siarad gyda'r Arglwydd. Ac wrth i ni dyfu yn ein ffydd, gallwn ddibynnu ar oleuni'r Ysbryd i'n helpu i weld yn gliriach beth yw ein anghenion, a sut y mae Crist yn darparu ar ein cyfer. Beth am i ni wneud hynny yr wythnos hon – dewis adnod, addewid, neu ddarlun penodol o'r Beibl a gofyn am gymorth Duw i'n symud o ddealltwriaeth i ddiolchgarwch a mawl!

Rhodri

Cyhoeddiadau'r Fro

Dydd Sul, Gorffennaf 3^{ydd}

- **Oedfa yng Nghefn Meiriadog** am 9:30 ac **yn Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Eric Greene. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llansannan ac Ysgol Sul yr oedolion yng Nghefn Meiriadog am 2:00 y prynhawn.
- **Oedfa yn Henllan** am 9:30 ac **Oedfa Deuluol yn Llanefydd** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Aneurin Owen.
- **Oedfa yn Saron** am 10:00 ac **yn Nantglyn** am 2:00 o dan arweiniad Rhodri.
- **Oedfa'r Fro yn Llansannan** am 6:00 yr hwyr gydag Alun yn arwain a Rhodri yn pregethu.

Nos Lun, Gorffennaf 4^{ydd} a Phnawn Gwener, Gorffennaf 8^{fed}

- **'Y Salmau'** – Y sesiwn olaf mewn cyfres o chwech astudiaeth Feiblaidd o dan arweiniad gweithwyr Dorcas. Gellir ymuno (ar ZOOM) naill ai nos Lun am 7:00 yr hwyr neu brynawn Gwener am 1:30. (*Manylion mewngofnodi:* <https://us02web.zoom.us/j/83243383071> neu deialwch 0208 080 6592 i ymuno ar y ffôn. Meeting ID: 832 4338 3071) Trefnir gan Is-bwyllgor Chwiorydd EBC.

Dydd Mawrth, Gorffennaf 5^{ed}

- **Paned a Sgwrs yn Ffestri Llansannan** am 1:30 y prynhawn ac edrychir ymlaen hefyd i gael cwmni Menna Thomas fydd yn sôn am ei gwaith. Croeso i bawb.

Dydd Sadwrn, Gorffennaf 9^{fed}

- **NI FYDD** Henaduriaeth Dyffryn Clwyd yn cyfarfod heddiw ond disgwyliwn fanylion y cyfarfod nesaf yn fuan.

Dydd Sul, Gorffennaf 10^{fed}

- **Bore Bro Aled yn Llansannan am 10:30** i deuluoedd holl eglwysi'r Ofalaeth. Bydd yr oedfa hefyd yn cael ei darlledu'n fyw o'r capel ac ar gael i chi wrando arni unrhyw bryd wedi i'r darllediad ddod i ben. (*I ymuno, ewch i wefan yr ofalaeth [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Bore Bro Aled' fydd ar y dudalen flaen.*) **Yn dilyn yr oedfa, byddwn yn mynd i'r Brenig i gael picnic ac i gymdeithasu, a bydd cyfle i'r plant fwynhau y maes antur sydd yno. (Os na fydd y tywydd yn caniatáu hynny, gallwn fwyta ein picnic a chael amser i gymdeithasu yn Ffestri'r Capel.)**

- **'Gwreiddiau'** – Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y prynhawn. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Andras Iago (07778 511672).

Dydd Sul, Gorffennaf 17^{eg}

- **Oedfa yn Llanfair** am 9:30 ac **yn Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad Rhodri.
- **Oedfa Thema (Henllan a Groes) yn Henllan** am 9:30.
- **Cyfarfod Gweddi (Llanefydd a Chefn Berain) yn Llanefydd** am 10:00 gydag Ysgol Sul y plant yn cydreddeg.
- **Oedfa'r Fro yng Nghefn Meiriadog** am 6:00 yr hwyr gyda Rhodri yn pregethu.

I ddod

- ⇒ Cyflwynir Medalau Gee (y Gogledd) ar **ddydd Sadwrn, 10 Medi 2022** yn Yr Hen Capel, Llanuwchllyn am 2:00 y prynhawn.

Cofion a Chyfarchion

Anfonwn ein cofion yr wythnos hon at Bryn Jones (Llanefydd) yn dilyn ei lawdriniaeth yn Ysbyty Gobowen, a hefyd Eurgain Pierce (Llanefydd) sydd yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyn o bryd ond sy'n gobeithio cael dod adref yn y dyddiau nesaf. Mae Llinos Hughes (Cefn Berain), Dilys Vaughan (Saron) a Richard M. Jones (Cefn Berain) yn parhau i gael gofal mewn gwahanol ysbytai, ond mae'n dda cael adrodd fod Glenys Roberts (Llansannan) wedi gwella'n ddigon da i gael dod adref o'r ysbyty erbyn hyn. Fe'ch cyflwynwn oll i ofal Duw gan ofyn iddo gysgodi drosoch a thros eich anwyliaid yr un modd. Anfonwn ein cofion at bawb arall ohonoch hefyd, yn arbennig felly y rhai sydd heb fod yn dda eich hiechyd ar hyn o bryd. Dymunwn adferiad buan i chi i gyd.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Gwilym ac Eirwen Foulkes (Llanfair) fydd yn dathlu eu Priodas Ddiemwnt yn ystod yr wythnos sy'n dod.

Rhifyn Olaf y Tymor Hwn

Un rhifyn arall o Llais Bro Aled fydd yn cael ei gyhoeddi y tymor hwn, felly anfonwch fanylion unrhyw gyfarfodydd sydd i ddigwydd o hyn tan ddechrau Medi erbyn nos Fercher (13eg), os gwelwch yn dda.